**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**26 MAI 2021**

**Adroddiad gan:** Arwyn Thomas - Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Casgliad o 'Bapurau Procio' i gefnogi'r Daith Ddiwygio

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno cyfres o Bapurau Procio sydd yn edrych ar agweddau ar arweinyddiaeth, gweledigaeth, addysgeg, asesu a dylunio'r cwricwlwm i aelodau'r Cyd-Bwyllgor. Ysgrifennwyd y casgliad hwn ar y cyd gan aelodau tîm GwE, yn gweithio dan arweiniad a cymorth yr Athro Graham Donaldson. Bwriad y Papurau Procio yw annog trafodaeth a chefnogi ysgolion i baratoi am Cwricwlwm i Gymru (gweler Atodiad 1).

## 2.0 Cefndir

2.1 Er mwyn cefnogi pob ysgol yn effeithiol i baratoi am y Cwricwlwm i Gymru newydd, mae'n rhaid cael dealltwriaeth glir a chyson ar draws tîm y gwasanaeth rhanbarthol. Yn rhan o hyn, mae GwE wedi ymrwymo i ddarparu dysgu proffesiynol yn rheolaidd i Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant, gan gynnal trafodaethau efo'r tîm llawn a chefnogi dealltwriaeth gyffredin i bawb dan arweiniad yr Athro Graham Donaldson.

2.2 Gan weithio mewn timau bach, mae GwE wedi arwain y gwaith ar gyd-greu cyfres o Bapurau Procio, sydd yn canolbwyntio ar agweddau unigol ar y Daith Ddiwygio sef arweinyddiaeth, gweledigaeth, addysgeg, asesu a dylunio'r cwricwlwm. Mae pob Papur Procio yn edrych ar beth sydd yn newid, sut mae'n newid ac yn sylfaenol, pam ei fod yn newid. Mae'r Papurau Procio hefyd yn rhoi safbwynt rhanddeiliaid er enghraifft arweinwyr, athrawon, dysgwyr a rhieni. Rhoddwyd y cyfle i'n cydweithwyr o'r Awdurdodau Lleol, Estyn, Prifysgol Bangor, Llywodraeth Cymru a Chonsortia Rhanbarthol eraill gydweithio â GwE i fireinio'r Papurau Procio hyn a'u hailddrafftio.

2.3 At hynny, effeithiodd pandemig Covid-19 ar baratoadau ysgolion at y Cwricwlwm i Gymru a gwelwyd rhai ffyrdd mwy newydd o weithio yn ymddangos. Mae'r Papurau Procio hyn yn gyfle i ysgolion feddwl sut orau i ail gydio yn y cwricwlwm newydd ac yn enwedig felly sut all y Pedwar Diben fod yn sylfaen i gefnogi dysgwyr wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol.

## 3.0 Ystyriaethau

3.1 Bydd y casgliad o Bapurau Procio yn mynd ochr yn ochr â'r cynnig dysgu proffesiynol i ysgolion ac yn cyd-fynd â chanllawiau'r Daith at 2022 sydd yn cefnogi ysgolion wrth iddynt baratoi am y cwricwlwm newydd. Rydym yn cydnabod y bydd ysgolion yn mynd i'r afael â'r Daith Ddiwygio mewn amryfal ffyrdd sydd yn gweddu i'w hysgol a'u clwstwr a bwriad y Papurau Procio hyn yw rhoi ysgogiad i ysgolion a chlystyrau feddwl am eu harferion presennol; gweld beth sydd eisoes yn llwyddo'n dda a beth ellir ei ddatblygu ymhellach.

3.2 Mae defnyddio iaith i rymuso arweinwyr ysgolion i berchnogi eu cwricwlwm lleol yn egwyddor allweddol yn y Papurau Procio hyn. Bydd gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant rôl allweddol o safbwynt gofyn cwestiynau a hwyluso trafodaethau mewn ysgolion, ac ar draws ysgolion, er mwyn helpu ysgolion i baratoi wrth i arweinwyr weithredu newid yn lleol i wireddu'r Pedwar Diben. Un egwyddor allweddol arall yw pwysigrwydd cydweithio ac mae'r Papurau Procio yn rhoi'r cyfle i ysgolion fyfyrio a datblygu ar eu cysylltiadau cydweithio cryf ar draws eu rhwydweithiau.

3.3 Rhennir y Papurau Procio ag ysgolion mewn amrywiaeth o fformatau i gynnwys weminar wedi'i recordio, drwy gyfarfodydd clwstwr a thrafodaethau efo Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant.

## 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

## 5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

## 6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

## 7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

## 8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Ymgynghorwyd â phartneriaid haen ganol drwy sesiynau cydweithredol. Ymgynghorwyd ymhellach â Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-Bwyllgor.

## 9.0 Atodiadau

9.1 Atodiad 1: Y Daith Ddiwygio - Papurau Procio

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**
Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad yn cadarnhau nad oes unrhyw ymhlygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn, a bydd GwE yn gweithredu o fewn eu hadnoddau ariannol cyfredol.